FelinDaclus

Beth yw e? : Grŵp o wirfoddolwyr yn Y Felinheli sydd am wella edrychiad y pentref ac am gynnal ymgyrchoedd casglu sbwriel a chael gwared â baw cŵn.

Pryd y cafodd ei sefydlu?: Cafodd ei sefydlu mewn cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ar Tachwedd 4 2008. Galwyd y cyfarfod gan y Cyngor Cymuned a'r Cynghorydd Sir ar gais nifer o bentrefwyr ac yn dilyn cwynion cyffredinol am sbwriel a baw cŵn. Cynhaliwyd diwrnod casglu sbwriel ar y cyd efo'r Clwb Pêl droed yn Hydref 2007 ac mae nifer o Gynghorwyr Cymuned yn "wardeniaid sbwriel" mewn rhannu o'r pentref. Ond nid oes hyfforddiant swyddogol wedi ei gynnal. Yn y cyfarfod cyntaf, trafodwyd nifer o brosiectau eraill. Daeth swyddogion o Gyngor Gwynedd a Threfi Taclus i'r cyfarfod. Mae'r syniadau wedi eu trafod efo Gwasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor, yr Ysgol Gynradd, Y Clwb Ieuenctid, Clwb Pêl droed Ieuenctid.

Beth ddigwyddodd wedyn? Bu tri o aelodau'r Grŵp yn cerdded y pentref ac fe nodwyd yr angen am 5 prosiect penodol :
1)Ymgyrch baw cŵn cyffredinol : targedu perchnogion cŵn anghyfrifol
2)Ymgyrch Casglu Sbwriel cyffredinol : ar y cyd efo'r Cyngor Cymuned, Clwb Pêl droed Ieuenctid a grwpiau eraill.
3)Ymchwilio i gynllun rhandaliadau ar dir diffaith ger Lon Las Menai (tu cefn Arvonia). Mae 5 o bobol eisoes wedi mynegi diddordeb ac mae'r Grŵp yn awyddus i ymweld â phrosiectau eraill yn yr ardal.
4)Gwella coedlan Cerrig yr Afon a chreu adnodd amgylcheddol yno i'r Ysgol Gynradd leol sydd ger llaw.
5)Gwella coedlan ger Lon Las Menai (tu cefn Arvonia) ar y cyd a'r Clwb Ieuenctid lleol i greu llwybrau pren a bocsys adar. I help pobol ifanc i barchu eu hamgylchedd a lleihau fandaliaeth.

A oes gan y Grŵp gyfansoddiad?
Oes. Derbyniwyd y cyfansoddiad yn ffurfiol mewn cyfarfod ar Ionawr 16 2009 ac fe benodwyd tri swyddog. Agorwyd cyfrif banc yn enw FelinDaclus a lluniwyd cais am arian.